Helping Hands

# Helping Hands Home Care

## Telerau ac Amodau Busnes

# Croeso i Helping Hands

Mae'r ddogfen hon yn nodi Telerau ac Amodau ein cytundeb gyda'n gilydd, gan esbonio sut y byddwn yn cydweithio i ddarparu gofal i'ch helpu chi, neu'ch anwylyd, i fyw'n dda yn y cartref a'r gymuned maen nhw'n ei charu.

Rydyn ni'n gwybod bod gwahodd rhywun i'ch cartref yn benderfyniad personol iawn, ac mae'n anrhydedd i'r cyfrifoldeb hwnnw gael ei roi i ni. Ein nod yw gwneud y broses mor llyfn a chysurlon â phosibl, felly mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn y bydd ei angen gennych chi yn gyfnewid.

Er mwyn cadw popeth yn syml, rydym wedi tynnu sylw at y telerau allweddol tua diwedd y ddogfen hon ac wedi egluro sut y gallent lunio eich profiad gofal ynghyd ag ychydig o gwestiynau cyffredin ar y diwedd.

Efallai fod manylion eraill sy'n bwysig i chi, felly darllenwch y ddogfen hon yn llawn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'ch rheolwr gofal, a fydd yn gallu egluro'r hyn y maent yn ei olygu yn fanylach. Unwaith eto, diolchwn yn fawr iawn i chi am ddewis Helping Hands ac rydym yn edrych ymlaen at helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch bywyd chi a'ch anwyliaid.

# Cynnwys

Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys:


Croeso i Helping Hands 2

1 DIFFINIADAU 4

2 EIN CYTUNDEB Â CHI 6

3 DARPARU'R GWASANAETHAU 7

4 Y GOFALWR 7

5 Y GOST 10

6 TALIADAU 11

7 EIN HATEBOLRWYDD I CHI 12

8 EICH HAWL I GANSLO 12

9 NEWIDIADAU I OFAL CYNLLUNIEDIG HEB GANSLO EICH CYTUNDEB GOFAL 14

10 EIN HAWL I ATAL Y GWASANAETHAU NEU GANSLO'R CYTUNDEB GOFAL 15

11 DIGWYDDIADAU Y TU HWNT I'N RHEOLAETH 16

12 GWYBODAETH AMDANOM NI, ADBORTH, A SUT I GYSYLLTU Â NI 16

13 CYFRINACHEDD A'CH DATA PERSONOL 17

14 NEWIDIADAU I'R TELERAU HYN A'R CYNLLUN GOFAL 18

15 TELERAU PWYSIG ERAILL 19

FFURFLEN CANSLO CYTUNDEB GOFAL 20

Cwestiynau Cyffredin 21

Cysylltwch â Ni 28

**Mae'r Cytundeb Gofal yn cynnwys:**

1) y Telerau ac Amodau hyn (y Telerau ac Amodau y bydd yn sail i'r Gwasanaethau rydym yn eu cyflenwi i chi);

2) Rhestr Brisiau'r Gangen Wasanaeth (ar gyfer Gofal Fesul Awr) neu ddyfynbris ar gyfer Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient fel y'i darperir gan eich Rheolwr Gofal; a'r

3) Cynllun Gofal (sy'n disgrifio'r Gwasanaethau yr ydym wedi cytuno i'w darparu).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y Telerau hyn (a'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod sy'n ffurfio eich Cytundeb Gofal) yn ofalus gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein Gwasanaethau.

# 1 DIFFINIADAU

**1.1** Pan ddefnyddir y geiriau canlynol gyda phriflythrennau yn y Telerau hyn, dyma beth maen nhw'n ei olygu:

**Gŵyl Banc:** yn golygu gŵyl banc gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban;

**Cytundeb Gofal:** y cytundeb rhyngom ni a chi ar gyfer darparu'r Gwasanaethau sy'n cynnwys y Telerau hyn, y Cynllun Gofal, Rhestr Brisiau'r Gangen Wasanaeth (ar gyfer Gofal Fesul Awr) neu ddyfynbris ar gyfer Gofal drwy Fyw Gyda'r Cleient fel y'i darperir gan eich Rheolwr Gofal, ac unrhyw amrywiadau o bryd i'w gilydd. Ar gyfer Gofal Fesul Awr, mae hyn hefyd yn cynnwys y Rhestr Brisiau;

**Gofalwr(wyr):** unrhyw un o'n gweithwyr sy'n darparu'r Gwasanaethau i'r Cwsmer;

**Cwsmer:** yr unigolyn sy'n derbyn y Gwasanaethau (yn hytrach nag unrhyw Atwrnai, Dirprwy neu Warantwr perthnasol);

**GDPR:** yw Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a, lle bo'n berthnasol, Rheoliad (EU) 2016/679, fel y'i diwygiwyd neu y'i disodlwyd o bryd i'w gilydd;

**Gwarantwr:** yw person heblaw'r Cwsmer (er enghraifft ffrind neu berthynas) sy'n derbyn atebolrwydd personol am dalu'r ffioedd;

**Gofal Fesul Awr:** mae hyn yn golygu gwasanaethau gofal cartref, gofal gan ymwelydd neu ofal nyrsio a ddarperir heblaw ar sail byw gyda'r cleient.

**Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient:** mae hyn yn golygu gwasanaethau gofal cartref a ddarperir gan Ofalwr sy'n byw gyda'r Cwsmer yn ei gartref ei hun;

**Rhestr Brisiau:** yw'r atodlen o gyfraddau ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Fesul Awr, a ddarperir i chi cyn cytuno ar y Cynllun Gofal ac a ddiwedderir o bryd i'w gilydd yn unol â'r Telerau hyn;

**Gwasanaethau:** yw'r Gofal Fesul Awr neu'r Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient yr ydym wedi cytuno i'w ddarparu i chi, fel y nodir yn y Cynllun Gofal;

**Ffi Sefydlu:** mae hyn yn golygu ffi na ellir ei had-dalu o £100 (a godir ar Gwsmeriaid sy'n derbyn Gwasanaethau Gofal Fesul Awr am lai na 4 wythnos a Gwasanaethau Gofal drwy Fyw Gyda'r Cleient a ddarperir heb seibiant am lai na phedair wythnos yn unig), sy'n cynrychioli ein costau rhesymol a gafwyd wrth gynnal yr asesiad cychwynnol, llunio'r Cynllun Gofal a pharatoi'r gwasanaethau i chi hyd yn oed os na chaiff y Gwasanaethau eu darparu mewn gwirionedd;

**Cynllun Gofal:** yn manylu ar y math o wasanaethau yr ydym wedi cytuno i'w darparu (yn dilyn asesiad risg ac anghenion gofal), amser a hyd y Gwasanaethau y gallwch gyfrifo'r gost ddisgwyliedig yn eu herbyn (yn unol â'r Rhestr Brisiau ar gyfer Gofal Fesul Awr neu ddyfynbris ar gyfer Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient a ddarperir gan y Rheolwr Gofal);

**Telerau:** y Telerau ac Amodau busnes a nodir yn y ddogfen hon, sy'n rhan o'r Cytundeb Gofal;

**Ni, ein:** Midshires Care Limited, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 3959933, y mae ei swyddfa gofrestredig yn 10 Tything Road West, Alcester, Swydd Warwick, B49 6EP, yn masnachu fel "Helping Hands Home Care"; a

**Chi, eich:** yw'r Cwsmer oni bai fod y Telerau'n cyfeirio at ddyletswydd i dalu ein Ffioedd a bod y Gwarantwr wedi derbyn atebolrwydd i dalu ein ffioedd am y Gwasanaethau, ac yn yr achos hwnnw bydd cyfeiriadau at '**chi**' neu '**eich**' yn cyfeirio at y Gwarantwr yn ôl y cyd-destun (gweler cymal 1.3 isod).

**1.2** Pan fyddwn yn defnyddio'r gair "ysgrifenedig" yn y Telerau hyn, bydd hyn yn cynnwys e-bost oni bai ein bod yn dweud fel arall.

**1.3** Os nad chi yw'r Cwsmer (neu'i Atwrnai neu Ddirprwy), mae'n bwysig deall, fel ystyriaeth i ni ddarparu'r Gwasanaethau i'r Cwsmer, eich bod yn cydnabod ac yn cytuno i dalu ein ffioedd yn unol â'r Telerau talu yn y Telerau ac Amodau hyn. Rydych yn cytuno bod eich rhwymedigaeth i dalu ein ffioedd yn brif rwymedigaeth (nid gwarant os nad yw'r person sy'n

derbyn y Gwasanaethau yn cytuno i dalu'r ffioedd) ac felly bydd rhaid i chi dalu'r ffioedd heb i ni orfod adennill y ffioedd gan y Cwsmer yn gyntaf.

**1.4** Ni fydd hawl gennym i adennill yr un ffioedd ddwywaith ac felly ni fydd gennym hawl i adennill unrhyw ffioedd:

**1.4.1** gennych chi o dan y contract hwn sydd eisoes wedi'u talu gan y Cwsmer; neu

**1.4.2** gan y Cwsmer sydd eisoes wedi'u talu gennych chi.

# 2 EIN CYTUNDEB Â CHI

**2.1** Bydd y Telerau hyn yn dod yn rhwymol arnoch chi a ninnau, a bydd y Cytundeb Gofal yn dod i fodolaeth pan fyddwch chi'n gofyn yn benodol i ni ddechrau cyflenwi'r Gwasanaethau i chi, neu pan fyddwn ni'n dechrau cyflenwi'r Gwasanaethau i chi; pa un bynnag sydd gynharaf.

**2.2** Ni fyddwn yn gorfod cychwyn y Gwasanaethau nes i chi lofnodi'r Cydsyniad i Ofal a chytuno ar eich Cynllun Gofal. Byddwn hefyd yn gofyn i chi lofnodi Cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol, sef ein dull talu dewisol. Os na fyddwch yn talu drwy ddebyd uniongyrchol, byddwch yn parhau i fod yn atebol i dalu'r ffioedd yn unol â chymal 6.

**2.3** Mae'r deunyddiau hysbysebu a marchnata yn ein catalogau neu lyfrynnau neu ar ein gwefan wedi'u cynhyrchu at y diben yn unig o roi syniad bras o'r gwasanaethau cyffredinol y gallwn eu cynnig, wedi'u rhestru yn ôl math o gategori. Darperir y rhain at ddibenion eglurhaol yn unig ac nid ydynt yn rhan o'r Cytundeb Gofal sydd gennym gyda chi.

**2.4** Mae disgrifiad o'ch Gwasanaethau i'w gael yn eich Cynllun Gofal. Gwiriwch fod y manylion yn y Cynllun Gofal yn gyflawn ac yn gywir. Os credwch fod camgymeriad neu os oes angen unrhyw newidiadau arnoch, cysylltwch â ni i'w trafod. Byddwn yn cadarnhau unrhyw newidiadau i'ch Cynllun Gofal yn ysgrifenedig er mwyn osgoi unrhyw ddryswch rhyngoch chi a ni.

**2.5** Byddwn yn adolygu eich Cynllun Gofal o bryd i'w gilydd, ac os ydym yn credu'n rhesymol bod eich anghenion neu ofynion wedi cynyddu neu leihau, byddwn yn trafod gyda chi a oes angen newid y Cynllun Gofal a sut y gallai hyn effeithio ar eich ffioedd.

**2.6** Os byddwch yn marw, bydd y Cytundeb Gofal yn dod i ben yn awtomatig. Dim ond am Wasanaethau hyd at ddyddiad eich marwolaeth y byddwn yn codi tâl ac ni chodir tâl am gyfnod rhybudd.

# 3 DARPARU'R GWASANAETHAU

**3.1** Byddwn yn darparu'r Gwasanaethau i chi gyda gofal a medrusrwydd rhesymol ac yn unol â'r cwmpas a nodir yn y Cynllun Gofal.

**3.2** Y cyfnod lleiaf ar gyfer darparu Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient yw 7 diwrnod, oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda ni. Os nad oes dyddiad gorffen wedi'i nodi yn eich Cynllun Gofal, bydd y Cytundeb Gofal yn parhau nes iddo gael ei derfynu yn unol â'r Telerau hyn.

**3.3** Os gofynnwch i'r Gofalwr adael yn gynnar yn ystod ymweliad wedi'i gynllunio, byddwch yn dal i orfod **talu am yr ymweliad cyfan sydd wedi'i gynllunio**. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y byddwn yn trafod gyda chi a oes angen newid y Cynllun Gofal i adlewyrchu eich anghenion a'ch gofynion yn well a sut y bydd hyn yn effeithio ar eich ffioedd.

**3.4** Oherwydd natur y Gwasanaethau, bydd angen i chi roi mynediad i ni a'r Gofalwr i'ch cartref er mwyn darparu'r Gwasanaethau ac er mwyn i ni asesu ansawdd y gofal rydym yn ei ddarparu. Os na fyddwch yn caniatáu inni gael mynediad i'ch cartref neu adeilad arall i gyflawni'r Gwasanaethau fel y trefnwyd (ac nad oes gennych reswm da am hyn), gallwn godi cost y Gwasanaethau a drefnir arnoch. Os na allwn, er gwaethaf ein hymdrechion rhesymol, gysylltu â chi neu aildrefnu mynediad i'ch cartref, gallwn atal y Gwasanaethau neu ganslo'r Cytundeb Gofal yn unol â Chymal 10.

**3.5** Noder: os na fyddwch yn talu eich anfoneb gyntaf o fewn 9 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb (gweler Cymal 6), efallai y byddwn yn atal neu'n anfon hysbysiad i roi'r gorau i ofal gydag effaith ar unwaith nes bod yr anfoneb wedi'i setlo'n llawn. Byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw os ydym yn bwriadu atal y Gwasanaethau. Nid yw hyn yn effeithio ar ein hawl i godi llog arnoch o dan gymal 6.4.2.

# 4 Y GOFALWR

**Telerau sy'n berthnasol i Ofal drwy Fyw gyda'r Cleient a Gofal Ymweld Fesul Awr**

**4.1** Byddwn yn sicrhau ein bod wedi fetio'ch Gofalwr yn briodol cyn i'r Gwasanaethau ddechrau, sy'n cynnwys hyfforddiant staff, gwiriadau cefndir, a chydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio. Cynhelir prosesau fetio o'r fath yn ôl ein disgresiwn llwyr ac yn unol â'r deddfau perthnasol.

**4.2** Rhaid i chi drin y Gofalwr â pharch ac urddas. Bydd methu â gwneud hynny yn doriad sylweddol gennych chi o'r Cytundeb Gofal ac yn caniatáu inni ei derfynu yn unol â Chymal 10.

**4.3** Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith diogel i'n Gofalwyr ac yn gweithredu dull dim goddefgarwch tuag at aflonyddu rhywiol, aflonyddu, difrïo neu ymddygiad amhriodol o unrhyw fath.

**4.4** Rydym yn cymryd camau rhagweithiol i atal aflonyddu rhywiol, gan gynnwys hyfforddi staff, asesu risg, gweithdrefnau adrodd clir a monitro parhaus, yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

**4.5** Rhaid i chi, ac unrhyw un sy'n bresennol yn eich cartref, drin y Gofalwr ag urddas a pharch bob amser. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n fygythiol, yn sarhaus, yn amhriodol yn rhywiol neu'n ddifrïol yn cael ei drin fel torri'r Cytundeb Gofal hwn yn ddifrifol.

**4.6** Pan fydd Gofalwr yn codi pryder neu gŵyn ynghylch aflonyddu neu ymddygiad amhriodol, efallai y byddwn yn:

**4.6.1** atal neu dynnu'r Gofalwr yn ôl o'ch cartref ar unwaith lle bo angen er mwyn amddiffyn ei ddiogelwch;

**4.6.2** ymchwilio i'r mater yn unol â'n gweithdrefnau mewnol; a

**4.6.3** chymryd camau priodol, a all gynnwys terfynu'r Cytundeb Gofal yn unol â Chymal 10.

**4.7** Nid yw'r cymal 4 hwn yn cyfyngu ar eich hawl i godi pryderon ynghylch safon y gofal a ddarperir, y dylid adrodd amdanynt yn unol â Chymal 12.

**4.8** Rydych chi'n gyfrifol am gost darparu digon o gynhyrchion glanhau a dillad amddiffynnol i ganiatáu i'r Gofalwr ddarparu'r Gwasanaethau.

**4.9** Rhaid i chi roi mynediad i'r Gofalwr i unrhyw gysylltiad rhyngrwyd sydd gennych yn eich cartref. Os gofynnwch i'r Gofalwr ddefnyddio'ch ffôn neu gysylltiad â'r we neu gytuno i ddefnydd o'r fath, neu os oes rhaid i'r Gofalwr eu defnyddio mewn argyfwng, ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw gostau.

**4.10** Ni chaniateir i'r Gofalwr: ddefnyddio'ch car (oni bai eich bod wedi cytuno ymlaen llaw a bod y car wedi'i yswirio i'r Gofalwr ei yrru); ysmygu, cymryd cyffuriau gwaharddedig neu yfed alcohol pan fydd yn eich cartref; derbyn unrhyw rodd sydd â gwerth mwy nag £20; na benthyca arian i chi, neu fenthyca arian gennych.

**4.11** Os, wrth ddarparu'r Gwasanaethau neu o fewn 12 wythnos i'r tro diwethaf y cawsant eu darparu i chi, yr hoffech gyflogi'r Gofalwr yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy Helping Hands, neu os ydych yn bwriadu ei gyflwyno i asiantaeth neu gyflogwr arall, efallai y bydd gofyn i chi dalu ffi drosglwyddo i ni.

**4.12** Rhaid i chi roi o leiaf dri mis o rybudd i ni a chael ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn i unrhyw drosglwyddiad ddigwydd.

**4.13** Bydd y ffi drosglwyddo yn ffi sefydlog o £4,000 sy'n adlewyrchu'r costau rhesymol a wynebwn, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: cyflogi Gofalwr, darparu hyfforddiant i staff, ymgysylltu â'r rheoleiddiwr, sut rydym yn darparu ein gwasanaethau, a'r costau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i Ofalwr newydd a'i hyfforddi.

**Telerau sy'n berthnasol i Ofal trwy Fyw gyda'r Cleient yn unig**

**4.14** Byddwch yn darparu bwyd (gwerth lleiaf o **£40 yr wythnos**) a chyfleusterau coginio i'r Gofalwr tra byddant yn darparu'r Gwasanaethau yn eich cartref. Rhaid i chi ystyried unrhyw ofynion deietegol rhesymol sydd gan y Gofalwr; byddwn yn gadael i chi wybod beth yw'r rhain.

**4.15** Rhaid i chi ddarparu a chynnal unrhyw offer sy'n angenrheidiol i ddarparu'r Gwasanaethau.

**4.16** Rhaid i chi ddarparu ystafell wely wedi'i dodrefnu'n addas i'r Gofalwr a mynediad at gyfleusterau ystafell ymolchi a thoiled. Rhaid i chi hefyd ddarparu digon o ddillad gwely glân i'r Gofalwr. Rhaid i ystafell wely'r Gofalwr fod at ddefnydd y Gofalwr yn unig, a rhaid i chi barchu preifatrwydd y Gofalwr a natur bersonol eiddo'r Gofalwr.

**4.17** Rhaid i'n Gofalwyr gael gorffwys digonol rhwng darparu'r Gwasanaethau. **Rhaid i chi ganiatáu i'r Gofalwr gymryd o leiaf dwy awr o seibiant bob dydd, a gall dreulio'r amser hwn i ffwrdd o'ch cartref.** Bydd y Gofalwr yn cadw cofnod o'r tasgau y mae'n eu cyflawni yn ystod y dydd.

**4.18** Gall y Gofalwr gymryd ei seibiannau ar adegau sy'n addas i'r ddau ohonoch, ar yr amod ei fod yn gallu cymryd o leiaf 14 awr o seibiant yn ystod pob wythnos.

**4.19** Sylwch nad yw eich ffioedd byw yn y cartref yn cynnwys cost darparu Gofalwr arall i ddarparu'r Gwasanaethau i dalu am seibiant eich prif Ofalwr. Fodd bynnag, mae gennym rwydwaith canghennau helaeth ledled Cymru a Lloegr, felly siaradwch â'ch Rheolwr Gofal, a all gynorthwyo i drefnu cymorth seibiant lleol, a godir ar gyfradd fesul awr y gangen leol.

**4.20** Dylai'r Gofalwr allu cael digon o orffwys yn ystod pob cyfnod o 24 awr, a fydd yn cael ei ddogfennu yn y Cynllun Gofal. Lle mae Gofalwr wedi ein hysbysu nad yw'n gallu cael y cyfnod gorffwys hwn:

**4.20.1** Byddwn mewn cysylltiad â chi i drafod trefniadau ar gyfer sicrhau bod y Gofalwr yn cael y gorffwys angenrheidiol a chynnal ailasesiad o'r Cynllun Gofal cyn gynted â phosibl yn rhesymol; ac

**4.20.2** Rydym yn cadw'r hawl i drefnu ail Ofalwr i ddod i'ch cartref i ddarparu'r Gwasanaethau os asesir na all ein Gofalwr wneud ei waith yn ddiogel ar ei ben ei hun. Byddwch yn atebol am gostau unrhyw ail Ofalwr gyda'r costau

cysylltiedig yn cael eu cytuno gyda chi ymlaen llaw cyn i'r ail Ofalwr gynorthwyo gyda darparu'r Gwasanaethau.

# 5 Y GOST

**Telerau sy'n berthnasol i Ofal Fesul Awr a Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient**

**5.1** Fel rhan o'n hadolygiadau gwasanaeth rheolaidd, rydym yn adolygu ein cyfraddau ffioedd o leiaf unwaith y flwyddyn. Rydym yn cadw'r hawl i adolygu ffioedd mewn ymateb i unrhyw newid deddfwriaethol neu amgylcheddol annisgwyl nad oedd wedi'i ragweld adeg yr adolygiad blynyddol safonol.

**5.2** Byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i chi o unrhyw newid neu gynnydd i'ch ffioedd o leiaf 30 diwrnod cyn i'r newid arfaethedig ddod i rym. Os nad ydych yn cytuno â'r newid, gallwch ganslo'r Cytundeb Gofal hwn drwy roi rhybudd o 14 diwrnod yn unol â Chymal 9.

**5.3** Rydych chi'n gyfrifol am dalu costau'r Gofalwr am eich hebrwng ar unrhyw deithiau (megis trafnidiaeth gyhoeddus, tacsis, sinema, theatr neu brydau bwyd allan) ac os yw'r Gofalwr yn mynd i unrhyw gostau trydydd parti sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu eich gofal (e.e. gorfod talu tâl parcio car oherwydd nad oes gennych unrhyw barcio oddi ar y ffordd am ddim iddo). Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffioedd ar gyfer y Gwasanaethau.

**5.4** Cyfrifir y tâl am eich Gwasanaethau yn seiliedig ar y cyfraddau a nodir yn ein Rhestr Brisiau a gall gynnwys Ffi Sefydlu. Sylwer ar y taliadau ychwanegol neu gynyddol canlynol:

**5.4.1** Codir tâl o **2.0 waith** y gyfradd safonol fesul awr neu ddyddiol am wasanaethau a ddarperir ar **Ddydd Nadolig**, **Gŵyl San Steffan** a **Dydd Calan**;

**5.4.2** Codir tâl o **1.5 gwaith** y gyfradd safonol fesul awr neu ddydd am wasanaethau a ddarperir ar **Wyliau Banc** eraill, **Noswyl Nadolig** a **Nos Galan** (ar gyfer Gwasanaethau Fesul Awr dim ond am ymweliadau ar ôl 6.00pm ar y diwrnod hwnnw y codir y cynnydd o 1.5 gwaith ar Noswyl Nadolig a Nos Galan).

**Telerau sy'n berthnasol i Ofal Fesul Awr**

**5.5** Pan fydd y Gofalwr yn darparu'r Gwasanaethau am gyfnod hirach nag a gynlluniwyd yn wreiddiol (ar eich cais neu mewn argyfwng), byddwn yn codi tâl am yr amser ychwanegol ar y gyfradd safonol fesul awr, a gyfrifir yn unol â'r Rhestr Brisiau.

**Telerau sy'n berthnasol i Ofal drwy Fyw gyda'r Cleient**

**5.6** Cyfrifir y tâl am Ofal drwy Fyw gyda'r Cleient yn seiliedig ar gyfradd wythnosol ar gyfer Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient a Gofal Seibiant parhaus, yn seiliedig ar y Gwasanaethau cynlluniedig a nodir yn eich Cynllun Gofal ac a hysbysir i chi ar ffurf dyfynbris gan y Rheolwr Gofal.

**5.7** Lle mae'r Gwasanaethau a nodir yn eich Cynllun Gofal i fod i gael eu darparu am bedair wythnos neu lai, byddwch yn talu'r ffioedd ymlaen llaw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Ffi Sefydlu. Gellir ad-dalu'r ffioedd hyn (ond nid y **Ffi Sefydlu o £100**) os byddwch yn canslo'r Cytundeb Gofal hwn, ar yr amod eich bod yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd inni o'ch dymuniad i ganslo.

**5.8** Lle cytunir ar y Gwasanaethau am gyfnod penodol o amser ac yna byddant yn dod yn barhaus, bydd y gyfradd ffi yn cael ei hailasesu i gyfradd safonol o ddyddiad y cytunwyd arno gyda'ch Rheolwr Gofal.

**5.9** Lle cytunir bod y Gwasanaethau'n barhaus ac yna'n dod yn gyfnod tymor byr, rydym yn cadw'r hawl i godi tâl am y cyfnod cyfan yn ôl ein cyfraddau ffioedd seibiant uwch fel y nodir yn y Rhestr Brisiau.

# 6 TALIADAU

**6.1** Mae eich Cynllun Gofal yn nodi'r Gwasanaethau y cytunwyd arnynt i'w darparu i chi.

**6.2** Os yw'r Gwasanaethau am bedair wythnos neu lai, byddwn yn eich anfonebu chi ymlaen llaw a rhaid talu'r swm cyn y gallwn ddechrau'r Gwasanaethau.

**6.3** Os yw'r Gwasanaethau am fwy na phedair wythnos, byddwn yn eich anfonebu chi bob wythnos mewn ôl-ddyledion. Dylid talu anfonebau o fewn 9 diwrnod drwy Ddebyd Uniongyrchol. Os bydd anghydfod ynghylch y ffioedd mewn anfoneb, rhaid i chi gysylltu â ni heb oedi gormodol. Bydd cwsmeriaid sy'n methu talu drwy ddebyd uniongyrchol yn gorfod talu **ffi weinyddol o £20 fesul anfoneb** i dalu ein costau rhesymol o brosesu'r taliad.

**6.4** Os na fyddwch yn talu ein hanfoneb o fewn 14 diwrnod, efallai y byddwn yn:

**6.4.1** eich hysbysu o'r symiau sy'n weddill a chadarnhau bod y taliad yn ddyledus o fewn 7 diwrnod i'n hysbysiad neu gellir terfynu'r Cytundeb Gofal. Codir **ffi weinyddol o £25** ar yr hysbysiad hwn;

**6.4.2** codi llog ar y swm sy'n ddyledus ar gyfradd o 5% y flwyddyn uwchlaw

cyfradd sylfaenol Banc Lloegr o bryd i'w gilydd ond ar 5% y flwyddyn am unrhyw gyfnod pan fydd y gyfradd sylfaenol honno islaw 0% (oni bai fod gwall yn ein hanfoneb);

Rydym yn cadw'r hawl i arfer y canlynol:

**6.4.3** atal y Gwasanaethau nes bod unrhyw swm sy'n weddill wedi'i dalu;

**6.4.4** terfynu'r Cytundeb Gofal ar unwaith;

**6.4.5** cyflogi gwasanaethau cwmni ffactorio dyledion i gasglu'r ffioedd ar ein rhan; a

**6.4.6** cymryd camau cyfreithiol i adennill y ffioedd sy'n ddyledus.

# 7 EIN HATEBOLRWYDD I CHI

**7.1** Byddwn yn eich digolledu am golled neu ddifrod y gallech ei ddioddef os byddwn yn methu â chyflawni dyletswyddau a osodir arnom gan y gyfraith, ond nid lle mae'r methiant hwnnw'n briodol i:

**7.1.1** eich bai eich hun;

**7.1.2** trydydd parti nad yw'n gysylltiedig â darparu Gwasanaethau o dan y contract hwn;

**7.1.3** unrhyw weithred neu hepgoriad bwriadol gan y Gofalwr; neu

**7.1.4** ddigwyddiad na fyddem wedi'i ragweld na'i atal hyd yn oed pe byddem wedi cymryd pob gofal rhesymol.

**7.2** Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golledion, costau, difrod, hawliadau na threuliau mewn perthynas â'ch eiddo personol, gan gynnwys eich cartref neu'ch cerbyd.

**7.3** Nid ydym yn eithrio, nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd, ein hatebolrwydd am: (a) marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod ni neu esgeulustod ein gweithwyr, asiantau neu is-gontractwyr; (b) twyll neu gamliwio twyllodrus; neu (c) unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei gyfyngu na'i eithrio gan y gyfraith.

# 8 EICH HAWL I GANSLO

**8.1** Mae gennych yr hawl i ganslo'r Cytundeb Gofal ar unwaith, o fewn yr 14 diwrnod cyntaf heb roi unrhyw reswm (y "**Cyfnod Oeri**"). Daw'r Cyfnod Oeri i ben ar ddiwedd 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y byddwch yn llofnodi'r Cytundeb Gofal.

**8.2** I arfer yr hawl i ganslo, rhaid i chi roi gwybod i ni am eich penderfyniad i

ganslo'r Cytundeb Gofal drwy ddatganiad clir, fel llythyr a anfonir drwy'r post, e-bost neu alwad ffôn. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen Ganslo Enghreifftiol ar ddiwedd y Telerau hyn.

**8.3** Ym mhob amgylchiad, byddwn yn rhoi anfoneb derfynol a datganiad i chi yn manylu ar unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus i chi neu, os nad oes ad-daliad yn ddyledus i chi, y costau sy'n parhau i fod yn daladwy.

**Newid eich meddwl a chanslo o fewn yr 14 diwrnod cyntaf**

**8.4** Os byddwch yn canslo'r Cytundeb Gofal **o fewn yr 14 diwrnod cyntaf** (lle rydym eisoes wedi dechrau cyflawni'r Gwasanaethau ar eich cais), byddwn yn ad-dalu'r holl daliadau a dderbyniwyd gennych ymlaen llaw, ar wahân i'r ffioedd canlynol, na ellir eu had-dalu:

**8.4.1** **y Ffi Sefydlu o £100.** Mae'r symiau hyn yn cynrychioli cost resymol sefydlu'r Gwasanaethau a phenodi Gofalwr i chi, sef y gwasanaethau a ddarparwn i chi hyd at yr adeg pan ddywedoch wrthym eich bod wedi newid eich meddwl ac yn dymuno canslo; a

**8.4.2** chost unrhyw **Wasanaethau a ddarperir i chi** (wedi'i chyfrifo'n ddyddiol yn unol â'r Rhestr Brisiau neu'r dyfynbris a ddarparwyd gan y Rheolwr Gofal).

**8.5** Byddwn yn eich ad-dalu heb oedi gormodol, a dim hwyrach nag 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y cawn wybod am eich penderfyniad i ganslo'r Cytundeb Gofal. Byddwn yn gwneud yr ad-daliad gan ddefnyddio'r un dull talu ag yr oeddech chi'n ei ddefnyddio i'n talu ni, oni bai eich bod wedi cytuno'n benodol â ni y gallwn eich ad-dalu gan ddefnyddio dull talu gwahanol. Doed a ddelo, ni fyddwch yn gorfod talu unrhyw ffioedd o ganlyniad i'r ad-daliad.

**Canslo ar ôl yr 14 diwrnod cyntaf**

**8.6** Os ydych chi am ganslo'r Cytundeb Gofal **ar ôl yr 14 diwrnod cyntaf**, rhaid i chi roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i ni yn ysgrifenedig. Rhaid i chi barhau i dalu am y Gwasanaethau a oedd i fod i gael eu darparu o dan eich Cynllun Gofal yn ystod eich cyfnod rhybudd o 14 diwrnod (a gyfrifir yn ddyddiol yn unol â'r Rhestr Brisiau neu'r dyfynbris a ddarparwyd gan y Rheolwr Gofal). Byddwn yn ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed ymlaen llaw i chi am Wasanaethau sydd i'w darparu ar ôl diwedd eich cyfnod rhybudd o 14 diwrnod.

**8.7** Lle bu newid sylweddol yn eich amgylchiadau sy'n arwain at newid perthnasol i faint y Gwasanaethau a ddarperir yn ystod 14 diwrnod olaf y Cytundeb Gofal, efallai y byddwn yn codi tâl am faint y Gwasanaethau a ddarperir fel arfer o dan eich Cynllun Gofal. Ystyrir taliadau o'r fath yn ôl

ein disgresiwn llwyr. O ran Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient, **ni fyddwn yn addalu**'r Ffi Sefydlu o **£100**. Mae'r swm hwn yn cynrychioli cost resymol sefydlu'r Gwasanaethau a phenodi Gofalwr i chi.

**8.8** Gallwch ganslo'r Cytundeb Gofal ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i ni:

**8.8.1** os ydym yn torri'r Cytundeb Gofal mewn unrhyw ffordd berthnasol, ac nid ydym yn cywiro nac yn trwsio'r sefyllfa o fewn 14 diwrnod i chi ofyn i ni wneud hynny yn ysgrifenedig;

**8.8.2** os ydym yn mynd i ddiddymiad neu benodir derbynnydd neu weinyddwr dros ein hasedau;

**8.8.3** os ydym yn ceisio newid y Telerau hyn heb roi o leiaf 30 diwrnod o rybudd i chi; neu

**8.8.4** os na allwn ddarparu'r Gwasanaethau oherwydd digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol.

**8.9** Os byddwch yn marw, ni fyddwn yn codi'r tâl canslo a byddwch yn atebol i dalu am Wasanaethau a dderbyniwyd hyd at ddyddiad eich marwolaeth.

**Ffi Canslo oherwydd cyfnodau hir o anweithgarwch**

**8.10** Os byddwch yn canslo gofal dros dro a bod disgwyl i chi ddychwelyd ond nad ydych yn dychwelyd o fewn 12 wythnos wedi hynny, byddwn yn eich prosesu'n awtomatig fel rhywun sy'n gadael ac yn codi tâl am y cyfnod rhybudd perthnasol.

# 9 NEWIDIADAU I OFAL CYNLLUNIEDIG HEB GANSLO EICH CYTUNDEB GOFAL

**9.1** Os ydych chi am atal y Gwasanaethau dros dro oherwydd gwyliau wedi'u cynllunio, rhaid i chi roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd i ni.

**9.2** Pan fyddwch chi'n rhoi o leiaf 7 diwrnod o rybudd i ni i atal unrhyw ofal wedi'i gynllunio, ni fyddwn yn codi tâl am y Gwasanaethau hynny (hyd at uchafswm o bedair wythnos) a oedd i fod i gael eu darparu o dan eich Cynllun Gofal yn ystod y cyfnod absenoldeb hwnnw, ac ar ôl y cyfnod hwnnw bydd y Gwasanaethau'n ailgychwyn.

**9.3** Os cewch eich derbyn i'r ysbyty oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac nad ydych am i'r Gofalwr fod gyda chi yn yr ysbyty, dim ond am y Gwasanaethau a oedd i fod i gael eu darparu o dan eich Cynllun Gofal yn ystod y 48 awr gyntaf o'ch arhosiad yn yr ysbyty y byddwn yn codi tâl arnoch. Os hoffech i'ch Gofalwr fod gyda chi yn yr ysbyty (gan gynnwys

newid y Cynllun Gofal yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty), byddwn yn hepgor y tâl cyfnod rhybudd 48 awr sy'n ymwneud ag arosiadau yn yr ysbyty yn unig.

**9.4** Os nad ydych chi eisiau i'r Gwasanaethau ddechrau eto ar ôl i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, rhaid i chi roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i ni i ganslo eich Cytundeb Gofal.

**9.5** Os na fyddwch yn rhoi'r rhybudd gofynnol inni a nodir yng Nghymal 9.3, rhaid i chi barhau i dalu am y Gwasanaethau a fyddai fel arfer wedi'u darparu yn unol â'ch Cynllun Gofal.

## 10 EIN HAWL I ATAL Y GWASANAETHAU NEU GANSLO'R CYTUNDEB GOFAL

**10.1** Efallai y byddwn yn atal y Gwasanaethau os na fyddwch yn talu ein hanfoneb yn llawn o fewn 9 diwrnod.

**10.2** Gallwn ganslo'r Cytundeb Gofal (am unrhyw reswm) drwy roi o leiaf 30 diwrnod o rybudd i chi yn ysgrifenedig. Os ydych wedi gwneud unrhyw daliad ymlaen llaw am Wasanaethau nad ydynt wedi'u cyflenwi, byddwn yn ad-dalu'r symiau hyn i chi.

**10.3** Gallwn ganslo'r Cytundeb Gofal ar unrhyw adeg gydag effaith ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i chi:

**10.3.1** os nad ydych chi'n dychwelyd mandad Debyd Uniongyrchol atom ni o fewn 7 diwrnod i lofnodi'r Cynllun Gofal;

**10.3.2** os ydym yn credu'n rhesymol bod risg ragweladwy o niwed i'r Gofalwr;

**10.3.3** os ydych wedi methu â setlo unrhyw anfoneb sy'n weddill o fewn 7 diwrnod i'n nodyn atgoffa ysgrifenedig, fel y nodir yng Nghymal 6.4.1;

**10.3.4** os ydych chi'n torri'r Cytundeb Gofal mewn unrhyw ffordd berthnasol arall ac, os gellir cywiro neu drwsio'r toriad, nad ydych chi'n ei gywiro nac yn ei drwsio o fewn 14 diwrnod i ni ofyn i chi wneud hynny yn ysgrifenedig. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys:

(a) gwrthod mynediad i ni a/neu'r Gofalwr i'ch eiddo i ddarparu'r Gwasanaethau;

(b) methu â rhoi gwybodaeth gywir a digon manwl inni am eich anghenion, gofynion neu iechyd;

(c) cam-drin y Gofalwr yn gorfforol neu'n eiriol; neu

(d) aflonyddu rhywiol neu hiliol, yfed alcohol yn eithafol, ymddygiad afresymol, neu geisiadau i'r Gofalwr ymgymryd â gweithgareddau afresymol neu

anghyfreithlon.

# 11 DIGWYDDIADAU Y TU HWNT I'N RHEOLAETH

**11.1** Mae'r adran hon yn berthnasol i unrhyw weithred neu ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol. Os yw digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar ein darpariaeth o'r Gwasanaethau:

**11.1.1** byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl i'ch hysbysu; a

**11.1.2** bydd ein darpariaeth o'r Gwasanaethau yn cael ei hatal am gyfnod y digwyddiad sydd y tu allan i'n rheolaeth. Byddwn yn ailgychwyn y Gwasanaethau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl i'r digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth ddod i ben.

**11.2** Ni fyddwn yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni, neu oedi wrth gyflawni, unrhyw un o'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb a achosir gan ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth. Byddwn yn sicrhau bod ymweliadau'r Gofalwr yn cael eu darparu mor agos ag sy'n rhesymol bosibl i'r amseroedd y cytunwyd arnynt rhyngom o bryd i'w gilydd. Mewn rhai achosion, efallai na fydd y Gofalwr yn mynychu oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth megis problemau trafnidiaeth neu'r angen i ymateb i sefyllfaoedd brys gyda chwsmeriaid eraill. Er y bydd ein Gofalwyr yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu'r Gwasanaethau yn unol â'r manylion yn eich Cynllun Gofal, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi os bydd angen i ni newid amser neu hyd ymweliad y Gofalwr am unrhyw reswm.

**11.3** Ni ddylech ddibynnu ar eich Gofalwr nac aelodau eraill o'n staff i gyflawni gwasanaethau meddygol, hyd yn oed mewn argyfwng. Dim ond o dan arweiniad uniongyrchol y gwasanaethau brys y gall eich Gofalwr ac aelodau eraill o'n staff berfformio Adfywio Cardiopwlmonaidd, ar yr amod bod yr aelod staff yn teimlo'n gyffyrddus ac yn hyderus i wneud hynny.

# 12 GWYBODAETH AMDANOM NI, ADBORTH, A SUT I GYSYLLTU Â NI

**12.1** Rydym yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Ein rhif cofrestru cwmni yw 3959933 ac mae ein swyddfa gofrestredig yn Helping Hands House, 10 Tything Road West, Kinwarton, Alcester, Swydd Warwick B49 6EP.

**12.2** Rydym wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal gyda thystysgrif

arolygu rhif E520002043. Ein rhif cofrestru Comisiwn Ansawdd Gofal yw 1-101671690. Yng Nghymru, ein rhif tystysgrif Arolygiaeth Gofal Cymru yw W15/00000831/O001/0001.

**12.3** Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar unrhyw adeg, dylech eu cyfeirio at eich Rheolwr Gofal penodedig yn y lle cyntaf. Os na allwch gael ymateb yn yr amser angenrheidiol, ffoniwch ni ar y rhif **01789 762121**, sy'n cael ei ateb bob amser, neu anfonwch e-bost at enquiries@helpinghands.co.uk.

**12.4** Os hoffech gysylltu â ni yn ysgrifenedig, neu os yw unrhyw gymal yn y Telerau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi rhybudd ysgrifenedig i ni (er enghraifft, i ganslo'r Cytundeb Gofal), gallwch anfon hyn atom drwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion a nodir uchod. Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi ei dderbyn trwy gysylltu â chi yn ysgrifenedig. Os bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi neu roi rhybudd ysgrifenedig i chi, byddwn yn gwneud hynny drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriad a roddwch i ni yn y Cytundeb Gofal.

**12.5** Yn yr achos annhebygol y bydd unrhyw broblem gyda'r Gwasanaethau neu gyda'ch Gofalwr, cysylltwch â ni a dywedwch wrthym cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl fel y gallwn gael cyfle rhesymol i unioni unrhyw broblemau posibl.

**12.6** Os nad ydych yn fodlon â'n datrysiad i'ch problem gyda'r Gwasanaethau neu'ch Gofalwr, gallwch wneud cwyn drwy ein Gweithdrefn Gwyno. Mae copi o'n gweithdrefn gwyno ar gael ar ein gwefan: www.helpinghandshomecare.co.uk/customer-complaints a byddwn yn rhoi copi o'n gweithdrefn gwyno i chi pan fyddwch yn llofnodi'r Cytundeb Gofal, neu gallwch ofyn am gopi gennym ni ar unrhyw adeg.

**12.7** Fel defnyddiwr, mae gennych hawliau cyfreithiol os na chaiff y Gwasanaethau eu cyflawni gyda sgìl a gofal rhesymol. Mae cyngor am eich hawliau cyfreithiol ar gael gan eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, y Swyddfa Safonau Masnach, neu'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol. Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau hyn yn lleihau eich hawliau cyfreithiol fel defnyddiwr.

# 13 CYFRINACHEDD A'CH DATA PERSONOL

**13.1** Bydd angen gwybodaeth benodol gennych arnom i ddarparu'r Gwasanaethau. Os na fyddwch, ar ôl i ni ofyn yn rhesymol i chi, yn rhoi'r wybodaeth hon sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu'r Gwasanaethau i ni, neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth anghyflawn neu anghywir i ni, efallai na fyddwn yn gallu darparu'r Gwasanaethau i chi. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallwn atal y Gwasanaethau neu derfynu'r Cytundeb Gofal yn unol â

Chymal 10.

**13.2** Byddwn yn cadw gwybodaeth am eich manylion cyswllt, iechyd, a llesiant corfforol neu feddyliol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Ni fyddwn byth yn gwerthu eich data personol.

**13.3** Byddwn yn parchu eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd a byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw a byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel y nodir yn ein Polisi Preifatrwydd.

**13.4** Mae ein Polisi Preifatrwydd yn esbonio pa ddata rydyn ni'n ei gasglu, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'r data hwnnw, yn ogystal â rhoi gwybod i chi a fydd angen i ni rannu'ch data â phartïon eraill (er enghraifft, meddygon neu weithwyr cymdeithasol). Gallwch ddod o hyd i'n Polisi Preifatrwydd yn www.helpinghandshomecare.co.uk/privacy ac rydym yn hapus i ddarparu copi ar gais.

**13.5** Rydych yn cytuno y gallwn ddatgelu gwybodaeth bersonol gyfyngedig am y Gofalwr i chi lle bo'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer darparu'r Gwasanaethau a bod gwybodaeth o'r fath yn gwbl gyfrinachol. Rydych hefyd yn cytuno na fyddwch yn rhannu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wybodaeth o'r fath ag unrhyw berson, cwmni neu fusnes arall am unrhyw reswm oni bai fod datgeliad o'r fath yn ofynnol gan y gyfraith, neu gan reoleiddiwr (gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal Cymru neu awdurdod lleol perthnasol).

**13.6** Byddwn yn cymryd mesurau technegol a threfniadol priodol i amddiffyn data personol rhag prosesu heb awdurdod neu anghyfreithlon, colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod, ac nid oes dim yn y Cytundeb Gofal hwn yn cyfyngu ar eich hawliau o dan y gyfraith diogelu data berthnasol.

# 14 NEWIDIADAU I'R TELERAU HYN A'R CYNLLUN GOFAL

**14.1** Efallai y byddwn yn diwygio'r Telerau hyn o bryd i'w gilydd. Byddwn yn rhoi o leiaf 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i chi o unrhyw newidiadau i'r Telerau hyn oni bai fod angen y newid ar unwaith er mwyn sicrhau eich diogelwch neu i gydymffurfio â'r gyfraith. Os na chytunwch â'r newid arfaethedig, gallwch ganslo'r Cytundeb Gofal yn unol â Chymal 9.

**14.2** Lle rydych chi neu rydym ni'n credu'n rhesymol bod angen i'r Gwasanaethau newid i ddiwallu eich anghenion neu ofynion, byddwn yn cytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cynllun Gofal yn ysgrifenedig. Mae hyn yn

cynnwys unrhyw newid i'r math o Wasanaethau a phryd a sut y cânt eu darparu, yn ogystal â newid i'r pris. Os na allwn ddod i gytundeb ar newidiadau i'r Cynllun Gofal, gallwch chi neu gallwn ni ganslo'r Cytundeb Gofal hwn yn unol â Chymalau 9 a 10.

## 15 TELERAU PWYSIG ERAILL

**15.1** Rhaid i chi sicrhau bod eich cartref yn amgylchedd diogel ac yn rhydd o unrhyw beryglon neu salwch a allai roi'r Gofalwr mewn perygl.

**15.2** Ni allwn roi cyngor i chi ar gyllid personol ac rydych chi'n gyfrifol am drefnu unrhyw gymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol. I gael gwybodaeth am gymorth i dalu am y Gwasanaethau, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gynghorydd ariannol annibynnol.

**15.3** Efallai y byddwn yn trosglwyddo ein hawliau a'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Gofal i sefydliad arall, a byddwn bob amser yn eich hysbysu yn ysgrifenedig os bydd hyn yn digwydd. Ni chewch drosglwyddo'ch hawliau na'ch rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Gofal heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

**15.4** Mae pob un o baragraffau'r Telerau hyn yn gweithredu ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw un ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau sy'n weddill yn parhau i fod mewn grym ac effaith lawn.

**15.5** Os ydych wedi cael eich cyflwyno atom gan asiant neu gorff atgyfeirio trydydd parti, cytunir na fydd gennych unrhyw hawl i droi at yr asiant neu'r corff atgyfeirio trydydd parti hwnnw mewn unrhyw ffordd fel rhan o'r Cytundeb Gofal hwn.

# FFURFLEN CANSLO CYTUNDEB GOFAL

Os ydych chi am ganslo'r Cytundeb Gofal hwn, gallwch chi wneud hynny yn ysgrifenedig neu anfon (a all fod drwy e-bost) yr hysbysiad hwn at y Rheolwr Gofal. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon os ydych chi'n dymuno, ond nid oes rhaid i chi wneud hynny.

(Llenwch, datgysylltwch a dychwelwch y ffurflen hon os ydych chi am ganslo'r Cytundeb Gofal)

**At:** ........................................................................

Helping Hands, 10 Tything Road West, Alcester, Swydd Warwick, B49 6EP

**Ffôn:** 01789 762121

**E-bost:** enquiries@helpinghands.co.uk

Drwy hyn, rwy'n rhoi hysbysiad fy mod yn dymuno canslo fy Nghytundeb Gofal gyda Helping Hands ac yn unol â hynny'r Gwasanaethau.

**Dyddiad (nodwch y dyddiad)** ..................................................................

**Llofnodwyd:** ..................................................................

**Enw'r Cwsmer:** ..................................................................

**Cyfeiriad y Cwsmer:**

..................................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................

# Cwestiynau Cyffredin

Rydym am i chi deimlo'n gwbl wybodus am sut rydym yn cydweithio i helpu eich teulu. Rydyn ni'n gwybod, wrth i sefyllfaoedd newid, y gall hynny godi cwestiynau'n aml, felly rydyn ni wedi casglu'r pethau y mae pobl am eu deall amlaf am ein Telerau ac Amodau.

Ein nod yw eich helpu i lywio'r cytundeb hwn yn hyderus, fel y gallwch barhau i ganolbwyntio ar fyw'n dda gartref. Mae pob sefyllfa deuluol yn unigryw, ac efallai fod gennych gwestiynau nad ydynt wedi'u trafod yma.

Os oes unrhyw beth yn teimlo'n aneglur neu os hoffech chi drafod rhywbeth yn fanylach, mae eich Rheolwr Gofal yma i helpu bob amser.

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Pam fod angen i mi arwyddo'r cytundeb hwn?

Mae'r Cytundeb Gofal yn nodi'n ysgrifenedig sut y byddwn yn cydweithio ac yn amlinellu cyfrifoldebau chi (y Cwsmer) a Helping Hands.

Sylwer, os ydych chi'n llofnodi'r cytundeb hwn ar ran y cwsmer, yna byddwch chi'n dod yn gyfrifol am dalu'r ffioedd am ein Gwasanaethau.

### 2. Rwy'n gwsmer "wedi'i ariannu" – pam fod angen i mi arwyddo'r cytundeb hwn?

Os yw eich anghenion gofal yn cael eu hariannu'n gyhoeddus a bod y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl neu ei leihau, byddwch yn gyfrifol am dalu'r ffioedd am ein gwasanaethau yn llawn.

Felly mae'n hanfodol eich bod yn dweud wrthym os yw eich cyllid yn newid neu'n dod i ben.

Drwy roi rhybudd i ni ymlaen llaw y gallai eich cyllid fod ar fin newid, efallai y gallwn ni eich helpu i herio'r gostyngiad arfaethedig mewn gofal a ariennir a/neu gallwn adolygu eich anghenion gofal i sicrhau ei fod yn cwrdd â'ch cyllideb newydd.

### 3. Debyd uniongyrchol – pam ydych chi eisiau i mi dalu trwy ddebyd uniongyrchol? (Cymal 6)

Debyd Uniongyrchol yw'r ffordd symlaf, hawsaf a di-drafferth o dalu ein biliau i chi a ni.

Mae'n golygu bod gennych dawelwch meddwl y bydd taliadau'n cael eu gwneud yn awtomatig, fel y gallwch osgoi unrhyw daliadau hwyr (gweler 5 isod) a gallwn ganolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau gofal.

### 4. Ffioedd – beth yw'r costau? (Cymal 5 a'r Rhestr Brisio a'r Cynllun Gofal)

Mae gennym ffioedd gwahanol ar gyfer gofal ymweld fesul awr a gofal drwy fyw gyda'r cleient.

**GOFAL YMWELD FESUL AWR** – mae hyn wedi'i nodi yn Rhestr Brisiau'r Gangen Wasanaeth, y gallwch ei chael gan eich Rheolwr Gofal.

**GOFAL DRWY FYW GYDA'R CLEIENT** – bydd hyn yn cael ei nodi yn eich Cynllun Gofal a chewch wybod amdano gan eich Rheolwr Gofal.

Bydd ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod eich anghenion gofal a nifer yr oriau / dyddiau o ofal a ddarperir i chi. Darperir Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient am gyfnod o saith diwrnod o leiaf.

Codir tâl o 2.0 waith y gyfradd safonol fesul awr neu ddyddiol am wasanaethau a ddarperir ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

Codir tâl o 1.5 gwaith y gyfradd safonol fesul awr neu ddydd am wasanaethau a ddarperir ar Wyliau Banc eraill, Noswyl Nadolig a Nos Galan.

Ar gyfer Gofal Fesul Awr yn unig, dim ond ar gyfer galwadau ar ôl 6.00pm ar y dyddiau hynny y mae'r codiadau tâl am Noswyl Nadolig a Nos Galan yn cael eu cymhwyso.

Noder y byddwn yn adolygu ein prisiau o leiaf unwaith y flwyddyn, gan roi rhybudd o 30 diwrnod i chi o unrhyw newidiadau.

### 5. Pa daliadau eraill all godi? (Cymalau 3, 4, 5 a 6)

Mae ein ffioedd eraill yn cynnwys:

a. **Ffi Sefydlu o £100** – ffi untro na ellir ei had-dalu sy'n daladwy gan Gwsmeriaid sy'n derbyn Gofal Fesul Awr a Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient am lai na 4 wythnos (ac eithrio'r rhai sydd wedi ymuno fel rhan o'n pecyn seibiant). Mae hyn yn talu costau'r asesiad cychwynnol, llunio'r Cynllun Gofal a pharatoi'r Gwasanaethau ar eich cyfer chi.

b. **Ffi Canslo** – mae angen rhybudd o 14 diwrnod arnom i ganslo gofal naill ai ar sail FESUL AWR neu DRWY FYW GYDA'R CLEIENT. Rydym wedi ymrwymo i dalu ein gofalwyr am ymweliadau sy'n cael eu canslo ar fyr rybudd, felly os caiff gofal ei ganslo heb roi'r rhybudd gofynnol, bydd anfoneb yn dal i gael ei hanfon atoch am yr 14 diwrnod cyntaf o ofal.

c. **Seibiannau wedi'u cynllunio ac ysbytai** – mae angen 7 diwrnod o rybudd arnom os ydych chi am gymryd seibiant wedi'i gynllunio fel gwyliau neu apwyntiad ysbyty wedi'i gynllunio. Os na fyddwn yn derbyn rhybudd 7 diwrnod ymlaen llaw, byddwn yn codi tâl am y Gwasanaethau y bwriedir eu darparu.

d. **Derbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio** – os bydd yn rhaid i chi fynd i'r ysbyty heb gynllunio hynny, rydym yn codi tâl am wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu yn ystod y 48 awr gyntaf o'ch arhosiad yn yr ysbyty. Byddwn yn hepgor y

rhybudd 48 awr os ydych chi eisiau i'ch Gofalwr fynychu'r ysbyty a byddwn yn newid dros dro faint o ofal sydd o dan y Cynllun Gofal am hyd yr arhosiad yn yr ysbyty.

Disgwylir y bydd y Gwasanaethau yn ailgychwyn ar ôl i chi ddychwelyd. Os ydych yn dymuno canslo'r Gwasanaethau'n barhaol, rhaid i chi roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i ni. Os na fyddwch yn ailddechrau gofal ar ôl 12 wythnos, rydym yn cadw'r hawl i godi tâl am y cyfnod rhybudd perthnasol yn unol â chymal 8.10.

e. **Cyflogaeth uniongyrchol o Ofalwyr** – mae ein Gofalwyr yn hynod bwysig i ni. Maent yn allweddol wrth ddarparu gwasanaeth da i gwsmeriaid, ac rydym yn buddsoddi yn eu hyfforddiant a'u datblygiad fel y gallwn fodloni eich gofynion chi a gofynion ein cwsmeriaid eraill. Os ceisiwch gyflogi un neu fwy o'n Gofalwyr yn uniongyrchol neu eu cyflwyno i asiantaeth, efallai y bydd gofyn i chi dalu £4,000, sy'n cynrychioli'r gost i ni o'u colli fel gweithiwr.

f. **Ffi Weinyddol** – i dalu cost prosesu'r taliad, codir £20 fesul anfoneb ar unrhyw Gwsmeriaid nad ydynt yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol (gweler 3 uchod).

g. **Ffi Taliad Hwyr** – codir £25 fesul anfoneb bob tro na fyddwch yn talu ein hanfoneb o fewn 9 diwrnod ac mae hyn yn cynrychioli costau gweinyddol adennill eich taliad hwyr. Yn ogystal, efallai y byddwn hefyd yn codi llog taliad hwyr.

h. **Costau Gofalwyr** – os yw'r Gofalwr yn mynd gyda chi ar deithiau, neu'n mynd i gostau trydydd parti sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu eich gofal (e.e. gorfod talu tâl parcio car oherwydd nad oes gennych unrhyw barcio oddi ar y ffordd am ddim iddo), bydd angen i chi dalu ei dreuliau.

i. **Ail Ofalwr sy'n Byw gyda'r Cleient** – lle byddwn yn asesu na all ein Gofalwr wneud ei waith yn ddiogel, rydym yn cadw'r hawl i drefnu i ail Ofalwr gynorthwyo gyda'ch gofal – a bydd costau hynny'n cael eu trafod gyda chi ymlaen llaw.

j. **Gwasanaeth Byw gyda'r Cleient / Heb Fyw gyda'r Cleient** – lle mae angen Gwasanaeth Byw gyda'r Cleient arnoch ond nad ydych am i'r Gofalwr fyw yn eich cartref, rhaid dod o hyd i lety arall i'ch Gofalwr. Er y gallwn eich cynorthwyo i ddod o hyd i lety i'r Gofalwr, eich cyfrifoldeb chi yn unig yw cost y llety.

### 6. Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient – beth arall sydd angen i mi, y Cwsmer, ei ddarparu? (Cymal 4.7 – 4.10)

Rydym yn mynnu bod ein Gofalwyr sy'n Byw gyda Chleientiaid yn cael:

a. Eu hystafell wely eu hunain at eu defnydd eu hunain, fel y gallant gael gorffwys ac amser personol priodol.

b. Dwy awr o egwyl bob dydd, pan fyddant yn rhydd i adael yr eiddo. Sylwch nad yw eich ffioedd Byw gyda'r Cleient yn cynnwys cost darparu Gofalwr arall i ddarparu'r gwasanaethau i dalu am seibiant eich prif Ofalwr. Fodd bynnag, mae gennym

rwydwaith canghennau helaeth ledled Cymru a Lloegr, felly siaradwch â'ch Rheolwr Gofal, a all gynorthwyo i drefnu cymorth seibiant lleol, a godir ar gyfradd y gangen leol.

c. Bwyd gwerth o leiaf £40 yr wythnos i gynnal eu hiechyd a'u llesiant.

### 7. Yswiriant car a materion cysylltiedig – a yw fy Ngofalwr yn gallu gyrru fy nghar?

Os ydych chi eisiau i'n Gofalwr eich gyrru chi neu'ch anwylyd o gwmpas yn eich cerbyd chi neu yn eu cerbyd nhw, rhaid i chi sicrhau bod gennych chi neu nhw yswiriant digonol, bod y cerbyd yn addas ar gyfer y ffordd, a bod gan y Gofalwr y drwydded briodol. Os bydd damwain, bydd costau unrhyw hawliad rhyngoch chi a'ch yswiriwr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i'n Gofalwyr sy'n darparu Gofal drwy Fyw gyda'r Cleient a Gofal Fesul Awr.

### 8. Ad-daliadau ac anghydfodau – sut mae hyn yn gweithio? (Cymal 12.5)

Rydym eisiau i chi fod yn fodlon ar y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu i chi a'ch anwylyd.

Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le neu os nad yw at eich dant, cysylltwch â'ch Rheolwr Gofal cyn gynted â phosibl.

### 9. Data personol – ar gyfer beth fyddwch chi'n defnyddio fy ngwybodaeth? (Cymal 13)

Mae eich gwybodaeth yn bersonol i chi a byddwn yn ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser.

Ni fyddwn yn rhannu nac yn gwerthu eich gwybodaeth y tu allan i Helping Hands ar unrhyw amod, oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol inni wneud hynny (neu ei bod yn ofyniad cyfreithiol inni wneud hynny).

### 10. Beth os byddaf yn newid fy meddwl ac eisiau canslo? (Cymal 9)

Mae gennych yr hawl i newid eich meddwl ac i ganslo ar unwaith am unrhyw reswm yn ystod yr 14 diwrnod cyntaf. Os gwnewch hynny, efallai y byddwn yn dal i godi'r Ffi Sefydlu o £100 a ffioedd am y dyddiau y darparwyd y Gwasanaethau.

Ar ôl yr 14 diwrnod cyntaf, rhaid i chi roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i ni i ganslo (gweler 5 uchod am y ffi Canslo).

## Diweddariadau ar gyfer 2026

Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r ychwanegiadau diweddaraf i'r Telerau ac Amodau, a ddiweddarwyd yn 2026.

### 11. Beth sy'n digwydd os oes angen i mi oedi fy ngofal dros dro? (Cymal 9)

Rydyn ni'n gwybod bod amgylchiadau'n newid, ac efallai yr hoffech chi gymryd seibiant o'ch Cynllun Gofal rheolaidd (er enghraifft, ar gyfer gwyliau wedi'u cynllunio). Os oes angen i chi oedi eich gofal am unrhyw reswm wedi'i gynllunio, rhowch wybod i ni o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw. Mae hyn yn ein helpu i addasu eich amserlen ac yn sicrhau na fyddwn yn codi tâl arnoch am unrhyw beth na fyddwch yn ei dderbyn. Gallwch oedi gofal am hyd at bedair wythnos ac, ar ôl hynny, bydd eich gofal yn ailddechrau'n awtomatig oni bai ein bod yn cytuno fel arall gyda chi.

### 12. Beth os nad yw'r ataliad wedi'i gynllunio, fel derbyniad i'r ysbyty? (Cymal 9)

Os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd a bod angen cymorth brys arnoch, byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod eich gofal yn addasu'n esmwyth.

Os cewch eich derbyn i'r ysbyty heb rybudd ymlaen llaw:

- Byddwn yn codi tâl am y gofal oedd yn ddyledus yn ystod y 48 awr gyntaf.
- Os hoffech i'ch Gofalwr barhau i ymweld â chi tra byddwch yn yr ysbyty (yn amodol ar Gynllun Gofal wedi'i ddiweddaru), byddwn yn hepgor y tâl rhybudd 48 awr hwn.

### 13. Beth os nad ydw i eisiau i ofal ailddechrau ar ôl gadael yr ysbyty? (Cymal 9)

Os nad ydych chi eisiau i'r Gwasanaethau ailddechrau ar ôl i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, rhaid i chi roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i ni i ganslo'ch Cytundeb Gofal.

Os na fyddwch yn rhoi'r rhybudd gofynnol, rhaid i chi barhau i dalu am y Gwasanaethau a fyddai fel arfer wedi cael eu darparu fel rhan o'r Cynllun Gofal.

### 14. A oes unrhyw newidiadau wedi bod i sut mae cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru? (Cymal 14)

Bydd eich Cynllun Gofal bob amser yn cael ei adolygu yn yr un ffordd feddylgar a phersonol, gan sicrhau bod eich cymorth yn parhau i fod yn iawn i chi. Bydd unrhyw ddiweddariadau i'ch Cynllun Gofal yn parhau i ddilyn ein proses adolygu safonol, gan sicrhau bod eich cymorth yn parhau i fod wedi'i bersonoli ac wedi'i alinio â'ch anghenion. Lle bydd newid i'ch Cynllun Gofal yn arwain at newid i fath, amlder neu gost gwasanaethau, bydd y newidiadau hyn yn cael eu cytuno gyda chi yn ysgrifenedig cyn iddynt ddod i rym.

### 15. Beth sy'n digwydd os bydd cwsmer yn marw? (Cymal 9)

Rydyn ni'n gwybod bod hwn yn gyfnod anodd iawn i deuluoedd. Os bydd Cwsmer yn marw, bydd y Cytundeb Gofal yn dod i ben yn awtomatig. Ni fyddwn yn codi tâl am gyfnod rhybudd, a dim ond hyd at ddyddiad marwolaeth y Cwsmer y byddwn yn anfonebu.

### 16. Ydych chi wedi diweddaru sut mae gofalwyr yn cael eu fetio? (Cymal 4)

Do. Rydym wedi cryfhau ein prosesau fetio gofalwyr i sicrhau'r safonau uchaf o ran diogelwch, proffesiynoldeb a thawelwch meddwl i Gwsmeriaid a Gofalwyr.

### 17. Pa amddiffyniadau newydd sydd ar waith i ofalwyr? (Cymal 4)

Rydym wedi cyflwyno mesurau cliriach yn ein Cytundeb Gofal i gefnogi dull dim goddefgarwch o aflonyddu rhywiol ac i sicrhau amgylchedd gwaith diogel i'n Gofalwyr. Lle bydd pryderon difrifol yn codi, efallai y byddwn yn atal neu'n tynnu Gofalwr yn ôl ar unwaith tra byddwn yn ymchwilio. Mewn achosion difrifol neu heb eu datrys, gellir terfynu'r Cytundeb Gofal i amddiffyn diogelwch y Gofalwr.

### 18. Beth sy'n digwydd os nad yw fy anfoneb gyntaf wedi'i thalu? (Cymal 6)

Rydym yn deall nad yw pethau bob amser yn mynd yn ôl y cynllun, a gall taliadau gael eu hanwybyddu weithiau. Os nad yw eich anfoneb gyntaf wedi'i thalu o fewn 9 diwrnod, efallai y bydd angen i ni oedi eich gofal neu roi rhybudd i'w ddwyn i ben. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd angen i ni atal gwasanaethau cyn i'r cytundeb ddod i ben hefyd. Os ydych chi'n cael anhawster gyda thaliad, siaradwch â ni fel y gallwn ni drafod eich opsiynau – rydym ni yma i helpu.

### 19. A all Helping Hands ddod â'r cytundeb i ben am unrhyw reswm? (Cymal 10)

Efallai y bydd achlysuron prin pan fydd angen i ni ddod â Chytundeb Gofal i ben. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn bob amser yn rhoi rhybudd o 30 diwrnod i chi, fel bod gennych amser i wneud trefniadau eraill.

### 20. Pryd y gellir dod â'r cytundeb i ben ar unwaith? (Cymal 10)

Mae diogelwch eich Gofalwr yn hynod bwysig i ni. Os oes pryderon difrifol ynghylch diogelu, neu os na chaiff mater pwysig ei ddatrys o fewn 14 diwrnod, efallai y bydd angen i ni ddod â'r Cytundeb Gofal i ben ar unwaith. Byddwn bob amser yn cyfathrebu'n glir mewn sefyllfaoedd fel hyn.

### 21. Beth yw'r cyfnod lleiaf ar gyfer gofal drwy fyw gyda'r cleient? (Cymal 4)

Mae gofal drwy fyw gyda'r cleient wedi'i gynllunio i gynnig cymorth cyson a pharhaus. Am y rheswm hwn, y cyfnod lleiaf yw 7 diwrnod.

### 22. Beth os gwrthodir mynediad neu anfonir Gofalwr adref yn gynnar? (Cymal 3)

Os na all Gofalwr ddarparu gofal oherwydd bod mynediad wedi gwrthod iddo neu ei fod wedi cael ei ofyn i adael yn gynnar, bydd y ffioedd llawn am yr ymweliadau cynlluniedig hynny yn dal i fod yn berthnasol. Os oes rhywbeth wedi newid ac mae angen i chi addasu eich gofal, siaradwch â'ch Rheolwr Gofal fel y gallwn ddod o hyd i ateb gyda'n gilydd.

### 23. Beth yw atebolrwydd Helping Hands am ddifrod i eiddo neu weithredoedd trydydd parti? (Cymal 8)

Rydym yn cymryd gofal mawr ym mhopeth a wnawn, ond mae rhai sefyllfaoedd na allwn fod yn gyfrifol amdanynt, megis difrod i eiddo, gweithredoedd gan drydydd partïon, neu ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Siaradwch â'ch Rheolwr Gofal os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon.

# Cysylltwch â Ni

Diolch i chi am ein dewis ni i'ch cefnogi chi a'ch anwylyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y telerau hyn neu unrhyw beth arall, mae croeso i chi gysylltu â'ch Rheolwr Gofal, anfon e-bost atom neu ein ffonio ar y manylion isod.

**Cyfeiriad:** Helping Hands Home Care, 10 Tything Road West, Alcester, Swydd Warwick, B49 6EP

**Ffôn:** 0808 274 2581 | **Ffacs:** 01789 762 143

**E-bost:** enquiries@helpinghands.co.uk

**Gwefan:** www.helpinghands.co.uk

Dogfen Telerau ac Amodau Mawrth 2026 © Helping Hands Home Care, is-adran o Midshires Care Limited 2005 i 2026. Cedwir pob hawl. Y swyddfa gofrestredig: Head Office, 10 Tything Road West, Alcester, Swydd Warwick, B49 6EP. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 3959933. Mae Helping Hands wedi'i gofrestru ac felly wedi'i drwyddedu i ddarparu gwasanaethau gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (ID: 1-101671690) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (rhif tystysgrif: W15/00000831/O001/0001). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.cqc.org.uk ac www.arolygiaethgofal.cymru. Telerau ac Amodau Cyfunol – Mawrth 2026